**Dydd Mercher. Medi 4ydd, 2024**

**Cofnodion Cyfarfod Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein drwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Medi 4ydd, 2024 am 6.45 yh.**

**Presennol**

**Cynghorwyr:** P.H. Roberts, R. A. Davies, J.W. Tandy, D. Hopkins, C. Davies, C. R. Thomas, A. W. Jones, A. Evans.

**Arlein:** Mrs K. D. L Davies, D. Thomas, E. Davies

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**500.**

**Datganiadau o Fuddiant.**

Derbyniwyd dau ddatganiad; roedd y Cynghorwyr R. A. Davies ac A. W. Jones wedi datgan eu bod yn Ymddiriedolwyr Cymdeithas Cenedlaethol Caeau Chwarae Llandybïe.

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**501.**

**Ceisiadau am gymorth ariannol.**

a) Roedd y Pwyllgor, yn unol â Chofnod 693/95, wedi ystyried y ceisiadau canlynol ac wedi argymell i'r Cyngor fel a ganlyn:

T75872 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Medi 2024 — Applications for Financial Assistance September 2024

| | Grant Ddiwethaf<br>Last Award | Cyflwynwyd Cyfrifon<br>Accounts Submitted | Argymhelliad<br>Recommendation | Name of Organisation |
|---|---|---|---|---|
| **Cyffredinol** | | | | **General** |
| Arddangosfa Tan Gwyllt, Rhydaman | £250 9.22 | ✓ | £250 | Ammanford Fireworks Display |
| Banc Bwyd Rhydaman | £1000 | ✓ | £1000 | Ammanford Food Bank |
| Cymdeithas Athrawon a Rhieni, Llandybie | Newydd | ✓ | £250 | Llandybie PTA |
| Cymdeiths Efeillio, Llandybie | £200 2.20 | ✓ | £200 | LLandybie Twinning Association |
| Cynghor Ysgol Gynradd Llandybie | £500 9.21 | Req'd | Need to ask for front page of bank statements | Llandybie Primary School, School Council |
| Cynghrair Cyfeillion Dyffryn Amman | Nil 9.19 | ✓ | £250 | Amman Valley League of Friends |
| Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen | Newydd/New | ✓ | None | Llangollen Eisteddfod` |
| Eglwys Y Plwyf Llandybie- cynnal goleuadau Nadolig | £250 9.23 | ✓ | £250 | Llandybie Parish Church- maintenance of Christmas lights |
| Eglwys Sant Marc, Caeerbryn | £300 9.23 | ✓ | Request letter of confirmation to agree £250 | St Mark's Church Caerbryn |
| Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | £1000 9.23 | ✓ | £1000 | Wales Air Ambulance |
| Ifanc y Galon Penygroes | £300 9.23 | ✓ | £300 | Young at Heart Penygroes |
| Menter Cwm Gwendraeth Elli | £100 9.21 | ✓ | £100 | Menter Cwm Gwendraeth Elli |
| Merched y Wawr Penyg roes | £300 9.23 | ✓ | £300 | Merched y Wawr Penygroes |
| Sefydliad Merched Llandybie | £300 9.23 | ✓ | £300 | Llandybie and District WI |
| Ysgol Maes y Gwendraeth ( Dawnsion Gwerin | Newydd/New | Req'd 4.7 | None | Maesy Gwendraeth School (Folk Dancing) |
| Undeb y Mamau Llandybie | £300 9.23 | ✓ | £300 | Llandybie Mothers Union |
| Y Llofwr | | | Differ to February | Y Llofwr |
| **Neuaddau** | | | | **Halls** |
| Neuadd Goffa Cyhoeddus Llandybie | 1699 9.23 | ✓ | £1699 | Llandybie Public Memorial Hall |
| Neuadd Goffa Cyheoddus Llandybie | | | £5000 | Llandybie Public Memorial Hall |
| Neuadd Leisant Penybanc | £850 9.23 | ✓ | £850 | Penybanc Welfare Association |
| | | | | |

| Chwaraeon | | | | Games |
|---|---|---|---|---|
| AbSalute Hyfforddiant personol a Maeth | Newydd/New | Req'd 4.7 re req BS 15.8 No business bank a/c only personal | None | AbSalute Personal Training and Nutrition |
| Clwb Bowlio Byr Penygroes | £250 9.23 | ✓ | £250 | Penygroes Short Mat Bowling Club |
| | | | | |
| Manau Agored | | | | Open Spaces |
| Cymdeithas Meusydd Chwarae Genedlaethol Cymru | £650 9.23 | ✓ | £650 | Llandybie National Plying Fields Association |
| | | | | |
| Mynwentydd | | | | Buriel Grounds |
| Capel Calfaria Penygroes | £300 9.23 | ✓ | £300 | Calfaria Baptist Chapel Penygroes |
| Capel Jerusalem, Penygroes | £300 9.22 | ✓ | £300 | Jerusalem Chapel Penygroes |
| Capel Mynydd Sion, Penygroes | £300 9.23 | ✓ | £300 | Mynydd Sion Chapel Penygroes |
| Capel y Drindod Cross Hands | £300 2.23 | ✓ | £300 | Capel y Drindod Cross Hands |
| Capel y Methodistiaid, Capel Hendre | £300 9.23 | ✓ | £300 | Methodist Chapel Capel Hendre |
| Capel yr Annibynwyr, Penygroes | £300 9,23 | ✓ | £300 | Penygroes Independent Chapel |
| Eglwys Efengylaidd Penygroes | £300 9.23 | ✓ | £300 | Penygroes Evangelical Church |
| Eglwys Sant Tybie, Llandybie | £800 9.23 | ✓ | £800 | St Tybie Church, Llandybie |
| Soar, Capel y Bedyddwyr, Llandyfan | £300 9.23 | ✓ | £300 | Soar Baptist Chapel Llandyfan |
| | | | | |

Roedd y Clerc, gyda chymorth y Swyddog Gweinyddol, wedi archwilio pob cais ac roedd y symiau a argymhellwyd wedi'u cofnodi. Yr eithriad i'r drafodaeth gyffredinol oedd y cais gan Arddangosfa Tân Gwyllt Rhydaman, gan fod y Cynghorwyr J. Tandy ac A. Evans ill dau o'r farn nad oeddent o blaid ei argymell oherwydd y sŵn a'r llygredd cemegol a achosir, a'r gofid i anifeiliaid anwes. Ar y llaw arall roedd y Cynghorwyr A. Jones a C. R. Thomas yn teimlo ei fod yn well bod y dathliad yn cael ei gyfyngu i un digwyddiad, neu fel arall byddai'n annog nifer o arddangosfeydd tân gwyllt eraill. Roedd hefyd yn ddigwyddiad unwaith y flwyddyn a oedd yn cynnig cyfle da i fusnesau lleol wneud arian.

Mae'r tabl uchod yn nodi'r symiau a **argymhellwyd**, i'w **dilysu** gan y cyngor llawn yng Nghyfarfod Llawn mis Medi.

**502.**

**Newid Llofnodwyr**

Dywedodd y Clerc taw'r llofnodwyr cyfredol yw'r Cynghorwyr S. Roberts, K. D. L. Davies ac E. Davies, a holodd os roeddent yn dal yn hapus i barhau gyda'r gwaith; roedd y Cynghorwyr K. D. L. Davies ac E. Davies wedi cadarnhau eu bod.

**Argymhellwyd**, yn ddibynnol ar bod y Clerc yn derbyn cadarnhad oddiwrth y Cynghorydd S. Roberts, bod y tri ohonynt yn parhau fel llofnodwyr, a bod hyn yn cael ei **ddilysu** yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**503.**

**Diweddariad ynghylch yr Archwiliad Allanol Blynyddol.**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod yr Archwiliad Allanol wedi'i gwblhau, a'i gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn y dyddiad cau ym Mehefin.

**504.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.15 yh.

_______________________ Cadeirydd